**P-05-929 Annog y defnydd o 'Cymru' a 'Cymry' wrth gyfeirio atom ein hunain yn y Gymraeg a'r Saesneg, Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor, 13.01.20**

Diolch am eich ebost. O ran sylwadau ychwanegol:

- Nid mater o "brandio" sydd dan sylw yma - nid gwerthu ffa pôb yw'r dasg - ond gofyn i'r Cynulliad annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Cymru a Chymry mewn dogfennau swyddogol yn yr iaith Gymraeg ac yn y Saesneg er mwyn dangos yn glir ein bod yn genedl sydd yn diffinio ein hunain.
- Mae diffinio ein hunain fel cenedl ar adeg pan mae mudiadau unoliaethol a "Phrydeinig" (h.y. Saesnig) a'u bryd (mae'n ymddangos) i danseilio ein cenedligrwydd, ac yn wir dad-ymrymuso a hyd yn oed diddymu'r Cynulliad, yn eithriadol o bwysig o ran hybu meddylfryd seicolegol iach ein cenedl. Drwy arwain y ffordd gall y Llywodraeth ddangos yn glir ein bod yn genedl sy'n ymfalchio yn ein hunaniaith ac am gymryd ein lle priodol yn y byd.
- Rwy'n falch gweld bod Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn nodi ei chefnogaeth i annog pobl i ddefnyddio "Cymru" a Cymry" mewn deunydd Saesneg.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deisebau am drafod y mater yma.

Yn gywir